Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

# Adroddiad Arolygu

**Gofal Plant Garden Village**

**Canolfan Pobl Ifanc**
**Wats Dyke Way**
**Wrecsam**
**LL11 2TE**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

03/07/2024

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Gofal Plant Garden Village

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal Dydd Plant<br>Gofal Dydd Llawn |
| Darparwr Cofrestredig | GVCC |
| Lleoedd cofrestredig | 50 |
| Iaith y gwasanaeth | Saesneg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 21 Mehefin 2022 |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Nid yw'r gwasanaeth hwn yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac nid yw'n gwneud ymdrech sylweddol i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Digonol** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Gwael** |
| **Yr Amgylchedd** | **Gwael** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Gwael** |

I gael rhagor o wybodaeth am raddau, gweler diwedd yr adroddiad hwn

## Crynodeb

Mae'r plant yn gwneud dewisiadau a phenderfyniadau ac mae ganddynt reolaeth dros eu chwarae. Maent yn fodlon ac yn setlo'n hapus yn eu gweithgareddau. Maent wedi meithrin cydberthnasau cadarnhaol â'r staff ac yn rhyngweithio'n briodol. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn mynd ar eu trywydd eu hunain, yn dangos lefelau priodol o ganolbwyntio ac yn actif. Mae llawer o'r plant yn datblygu sgiliau addas ac mae ganddynt gyfleoedd i ddatblygu eu hannibyniaeth.

Mae'r staff yn dilyn rhai polisïau a gweithdrefnau priodol sy'n hyrwyddo iechyd a llesiant y plant. Fodd bynnag, nid yw'r arweinwyr yn deall yn llawn nac yn hyrwyddo'r cysyniad ehangach o ddiogelu. Mae'r staff yn cwblhau cofnodion damweiniau a digwyddiadau'n briodol ac yn cadw cofnodion cywir o bresenoldeb y plant. Fodd bynnag, nid yw presenoldeb y staff yn cael ei gwblhau'n ddigon cyson. Mae'r mwyafrif o'r staff yn dilyn arferion hylendid addas, yn rheoli'r rhyngweithio'n briodol ac maent yn fagwrus ac yn garedig. Fodd bynnag, nid yw'r arweinwyr yn sicrhau bod y staff yn gwneud darpariaeth briodol i ofalu am ofal, goruchwyliaeth ac addysg y plant yn rheolaidd.

Nid yw'r arweinwyr yn sylwi ar risgiau posibl i'r amgylchedd ac nid ydynt yn sicrhau bod yr adeilad yn ddiogel. Mae'r rhan fwyaf o ardaloedd y lleoliad yn ddigon glân. Mae'r staff yn gofalu am y plant mewn amgylchedd sydd wedi'i addurno'n addas, gydag adnoddau o ansawdd addas. Mae'r staff yn sicrhau bod y plant yn cael digon o chwarae yn yr awyr agored. Fodd bynnag, gall yr adnoddau a'r teganau fod yn anniben, ac nid yw rhai o'r ardaloedd yn edrych yn groesawgar.

Mae'r arweinyddiaeth yn wael. Gwelsom enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio y mae angen rhoi sylw iddynt ar unwaith. Fodd bynnag, dechreuodd yr arweinwyr fynd i'r afael â rhai o'r materion hyn y diwrnod canlynol ac maent yn awyddus i wneud gwelliannau. Mae'r arweinwyr wedi meithrin cydberthnasau cadarnhaol â'r rhieni ac wedi creu cysylltiadau da â'r ysgol gyfagos.

| Llesiant | Digonol |
|---|---|

Mae'r plant yn gwneud dewisiadau a phenderfyniadau ac mae ganddynt reolaeth dros eu chwarae. Maent yn dewis pa adnoddau y maent am eu defnyddio a'r ffrindiau y maent am chwarae â nhw. Mae'r plant yn lleisio eu barn oherwydd eu bod yn gwybod y gwrandewir arnynt. Er enghraifft, os bydd plentyn yn gofyn am fwy o fyrbryd, os bydd angen sicrwydd arnynt neu gymorth arno, caiff ymateb priodol.

Mae'r plant yn hapus ac yn setlo'n fodlon yn eu chwarae. Maent wedi meithrin cydberthnasau cadarnhaol â'r staff y maent yn eu hadnabod yn dda ac yn hapus i gael cymorth gan y staff newydd sydd wedi ymuno â'r tîm yn ddiweddar. Mae'r plant yn gyfarwydd ag arferion y lleoliad. Er enghraifft, mae'r rhan fwyaf o'r plant yn gwybod y dylent olchi eu dwylo cyn bwyta ac yn gwybod eu bod yn chwarae yn yr awyr agored ar ôl iddynt orffen eu cinio.

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn rhyngweithio'n briodol. Mae llawer ohonynt yn rhannu adnoddau ag annibyniaeth gynyddol ac yn cymryd eu tro heb fawr o gymorth. Mae rhai o'r plant yn sgwrsio â'r staff am bethau sy'n bwysig iddynt fel eu hoff fwydydd, yr hyn y maent wedi'i wneud yn yr ysgol y diwrnod hwnnw a'u diddordeb mewn pêl-droed. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn gyfeillgar pan fyddant yn cwrdd ag oedolion newydd, gan ein cynnwys ni. Er enghraifft, gwnaethant ein gwahodd i weld eu cegin fwd a mwynhau dod â'u pecynnau bwyd er mwyn i ni eu hagor yn ystod amser cinio.

Yn yr awyr agored, roedd y rhan fwyaf o'r plant yn mynd ar eu trywydd eu hunain, yn dangos lefelau priodol o ganolbwyntio ac yn actif. Mae llawer ohonynt yn canolbwyntio'n dda wrth iddynt neidio o un garreg sarn i'r llall ac yn chwarae'n hyderus. Maent yn mwynhau cydbwyso ar drawstiau pren ac yn chwerthin wrth iddynt chwarae cuddio gyda'r staff. Dywedodd yr arweinwyr wrthym fod y plant wrth eu boddau yn yr awyr agored, a gwelsom hynny ar y diwrnod wrth iddynt ddewis treulio'r rhan fwyaf o'u hamser yn yr awyr agored.

Mae llawer o'r plant yn meithrin sgiliau ac mae ganddynt gyfleoedd i ddatblygu eu hannibyniaeth. Er enghraifft, maent yn defnyddio'r peiriant dŵr i arllwys eu diodydd eu hunain, maent yn rhoi eu deunydd pecynnu bwyd yn y bin ac mae'r plant iau yn dysgu sut i ddefnyddio'r toiled gyda llai o gymorth. Fodd bynnag, mae cyfleoedd yn cael eu colli i'r plant sy'n mynychu'r clwb ar ôl ysgol ddatblygu annibyniaeth ar adeg byrbryd, gan nad ydynt yn cael eu cynnwys ddigon wrth baratoi a gweini eu bwyd eu hunain.

## Gofal a Datblygiad — Gwael

Mae'r staff yn dilyn rhai polisïau a gweithdrefnau priodol sy'n hyrwyddo iechyd a llesiant y plant. Er enghraifft, mae'r staff yn cynnig digon o awyr iach i'r plant a'r cyfle i redeg o gwmpas a bod yn egnïol. Maent yn darparu bwyd cytbwys a diodydd iach yn briodol, ac yn sicrhau bod dŵr yfed ar gael yn rhwydd. Fodd bynnag, nid yw'r arweinwyr yn deall yn llawn nac yn hyrwyddo'r cysyniad ehangach o ddiogelu, gan nad ydynt yn lleihau'r risgiau yn yr amgylchedd yn ddigon da. Er gwaethaf hyn, mae'r staff y gwnaethom siarad â nhw yn deall eu cyfrifoldebau i roi gwybod am unrhyw bryderon o ran diogelu plant ac maent yn gyfarwydd â'r polisi diogelu. Mae digon o staff wedi cael hyfforddiant cymorth cyntaf pediatrig. Fodd bynnag, nid oes digon o aelodau staff cymwysedig a phrofiadol i fodloni'r gofynion Safonau Gofynnol Cenedlaethol. Er nad oes angen gweithredu ar unwaith, mae hwn yn faes i'w wella, ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu.

Mae'r staff yn cwblhau cofnodion damweiniau a digwyddiadau'n briodol a chaiff y rhain eu rhannu gyda'r rhieni. Maent yn cadw cofnodion cywir o bresenoldeb y plant. Fodd bynnag, ni chaiff presenoldeb y staff eu cwblhau'n ddigon cyson gan nad yw'r staff cyflenwi bob amser wedi'u cofnodi ar y gofrestr. Er nad oes angen gweithredu ar unwaith, mae hwn yn faes i'w wella, ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu. Mae'r mwyafrif o'r staff yn dilyn ymarferion hylendid priodol gan gynnwys pan fyddant yn gweini bwyd. Fodd bynnag, ar adegau, mae'r arweinwyr yn dilyn gweithdrefnau hylendid gwael pan fyddant yn newid cewynnau, gan eu bod yn cerdded drwy'r adeilad at sinc i olchi eu dwylo yn hytrach na'u golchi yn y sinc wrth yr ardal newid cewynnau.

Mae'r rhan fwyaf o'r staff yn rheoli rhyngweithio'r plant yn briodol. Maent yn dilyn polisi ymddygiad addas ac yn annog y plant i wneud dewisiadau da. Mae'r staff yn defnyddio dulliau atgyfnerthu cadarnhaol pan fydd y plant yn ymdrechu'n galed neu'n cwblhau tasgau. Ar y cyfan, mae'r staff yn fodelau rôl da, ond mae'n anodd cyflawni hyn yn ystod amser cinio gan eu bod yn cefnogi'r plant wrth fwyta eu cinio eu hunain hefyd.

Mae'r staff yn deall dymuniadau ac anghenion y plant ac yn dangos cynhesrwydd a charedigrwydd. Maent yn rhoi gofal a chymorth priodol i'r plant pan fydd hynny'n bosibl. Fodd bynnag, mae adegau lle yr effeithir ar eu rhyngweithio â'r plant gan nad oes digon o staff i oruchwylio'r plant yn briodol, yn yr ardal awyr agored fawr iawn. Nid yw'r arweinwyr yn sicrhau bod y staff yn gwneud darpariaeth briodol i ofalu am ofal ac addysg y plant. Er enghraifft, nid ydynt yn cwblhau cynlluniau gweithgareddau a phrin yw'r profiadau diddorol sydd ar gael i'r plant. Mae hyn yn cael effaith ar iechyd a llesiant y plant, ac yn peri risg iddynt, ac felly rydym wedi cyhoeddi hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth. Rhaid i'r darparwr weithredu ar unwaith i ymdrin â'r mater hwn.

Mae gan y staff ddealltwriaeth briodol o'r plant sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol. Maent yn gweithio'n agos gyda'r rhieni ac yn gofyn am gymorth a chyngor gan asiantaethau allanol sy'n sicrhau bod y plant yn gwneud cynnydd.

## Yr Amgylchedd **Gwael**

Nid yw'r arweinwyr yn dilyn gweithdrefnau priodol i reoli diogelwch yr amgylchedd ac nid ydynt yn sylwi ar bob risg bosibl yng ngofod chwarae'r plant. Er enghraifft, ar ddiwrnod yr arolygiad, nid oedd yr adeilad yn ddiogel er mwyn atal mynediad heb awdurdod nac er mwyn atal y plant rhag gadael y safle ar eu pen eu hunain. Gwnaethom hefyd nodi llawer o risgiau sylweddol eraill yn yr amgylchedd. Caiff asesiadau risg eu cwblhau'n rheolaidd ond nid ydynt yn foddhaol gan nad ydynt yn cynnwys yr holl beryglon posibl. Mae hyn yn cael effaith ar iechyd a llesiant y plant, ac yn peri risg iddynt, ac felly rydym wedi cyhoeddi hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth. Rhaid i'r darparwr weithredu ar unwaith i ymdrin â'r mater hwn. Mae'r staff yn sicrhau y caiff ymarferion tân eu cynnal yn rheolaidd a'u bod yn cael eu cofnodi. Mae'r rhan fwyaf o ardaloedd y lleoliad yn ddigon glân.

Mae'r staff yn gofalu am y plant mewn amgylchedd sydd wedi'i addurno'n addas, sydd wedi'i oleuo'n dda gyda digon o olau naturiol. Mae ardaloedd cyfforddus ar gael i'r plant gwblhau gweithgareddau tawelach yn ogystal ag ardaloedd mawr iddynt chwarae a bod yn egnïol. Mae cynllun yr adeilad yn rhoi digon o le i'r plant symud o gwmpas a chwarae yn rhydd. Yn y brif ystafell chwarae, mae'r rhan fwyaf o'r adnoddau yn ddigon isel er mwyn i'r plant gael gafael arnynt ar eu pen eu hunain. Fodd bynnag, nid yw'r arweinwyr yn cymryd digon o ofal i sicrhau bod yr amgylchedd yn edrych yn groesawgar. Nid ydynt yn gosod adnoddau ar gyfer y plant yn rheolaidd ac mae'r teganau wedi'u cymysgu ac yn cael eu gadael ar y llawr, gan wneud i'r ystafelloedd edrych yn anhrefnus ac yn anniben. Mae'r staff yn rhoi blaenoriaeth uchel i'r ardal awyr agored, gan sicrhau bod y plant yn cael defnyddio'r ardal hon cymaint â phosibl. Mae adnoddau ar gael i'r plant ymarfer eu cydbwysedd a'u sgiliau cydsymud wrth iddynt neidio o un darn o gyfarpar chwarae i'r nesaf, gyrru cerbydau ar olwynion a chwarae pêl-droed. Mae'r gegin fwd yn helpu i hyrwyddo sgiliau dychymyg a datrys problemau ond mae'r cyfleoedd i wneud marciau yn gyfyngedig.

Ar y cyfan, mae'r arweinwyr yn sicrhau eu bod yn rhoi dodrefn, teganau ac adnoddau glân, mewn cyflwr addas i'r plant. Fodd bynnag, nid yw rhai deunyddiau fel y mat yn y brif ystafell chwarae yn ddigon glân. Mae'r staff yn deall y fantais o ddarparu dodrefn pren ac adnoddau naturiol i'r plant.

Mae'r staff yn hyrwyddo ymwybyddiaeth ddiwylliannol yn briodol drwy straeon a theganau a thrwy ddathlu digwyddiadau diwylliannol amrywiol.

| Arweinyddiaeth a Rheolaeth | Gwael |
|---|---|

Nid yw'r arweinwyr yn rhedeg y lleoliad yn briodol. Ni chaiff rhai o'r rhwymedigaethau rheoleiddiol eu cyflawni a gwelsom enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio y mae angen rhoi sylw iddynt ar unwaith. Nid yw'r arweinwyr yn rheoli eu timau'n effeithiol ac nid ydynt bob amser yn ymdrin ag ymarferion gwael yn foddhaol. Nid ydynt yn hyrwyddo arferion diogel a diwylliant o ddiogelwch yn rheolaidd chwaith. Nid oedd yr arweinwyr wedi rhoi gwybod i AGC am sawl digwyddiad o bwys er bod hyn wedi cael ei godi fel mater yn lleoliad arall yr unigolion cyfrifol ym mis Chwefror 2024. Mae hyn yn peri risg i iechyd a llesiant y plant, ac felly rydym wedi cyhoeddi hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth. Rhaid i'r darparwr weithredu ar unwaith i ymdrin â'r mater hwn.

Mae'r tîm rheoli wedi wynebu heriau a newidiadau o ran staffio. Mae'r person â chyfrifoldeb sydd newydd ei benodi a'r dirprwy yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan yr unigolyn/unigolion cyfrifol ac maent yn awyddus i weithio gyda'r tîm i wneud gwelliannau.

Roedd y datganiad o ddiben wedi dyddio. Fodd bynnag, cyn i'r adroddiad gael ei ysgrifennu, cawsom gopi wedi'i ddiweddaru sy'n adlewyrchu'r lleoliad yn gywir ac yn bodloni'r rheoliadau. Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau priodol ar gael i gefnogi'r staff yn eu rolau. Mae'r staff yn mwynhau gweithio gyda'r plant. Fodd bynnag, mae morâl y staff yn isel.

Mae gan yr arweinwyr systemau sylfaenol ar waith i adolygu ansawdd y gofal ac i geisio adborth gan y rhieni, y staff a'r plant. Mae'r arweinwyr yn gwrando ar adborth adeiladol ac yn dangos parodrwydd i wneud gwelliannau, a gwnaeth rhai ohonynt ddechrau hyn y diwrnod ar ôl ein hymweliad. Fodd bynnag, nid yw'r arweinwyr bob amser yn gallu cyflwyno newidiadau dymunol.

Mae gan yr arweinwyr systemau recriwtio priodol ar waith. Fodd bynnag, nid ydynt yn casglu'r holl ddogfennau gofynnol i ddangos bod yr unigolyn mwyaf addas wedi cael ei gyflogi ar gyfer y swydd. Er nad oes angen gweithredu ar unwaith, mae hwn yn faes i'w wella, ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu.

Nid yw systemau goruchwylio ac arfarnu'r staff yn gadarn, ac nid yw rhai aelodau o'r staff wedi cael eu harfarnu ers mwy na 12 mis. Mae'r rhain yn bwysig oherwydd y gallant helpu i gydnabod llwyddiannau/cyflawniadau ac i nodi meysydd i'w gwella. Mae hyn yn cael effaith ar iechyd a llesiant y plant, ac yn peri risg iddynt, ac felly rydym wedi cyhoeddi hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr weithredu ar unwaith i ymdrin â'r mater hwn. Er hyn, mae'r arweinwyr yn annog y staff i gael hyfforddiant gorfodol ac yn trefnu dyddiau hyfforddiant ar lesiant yn rheolaidd er mwyn helpu i gefnogi'r tîm. Mae'r arweinwyr yn rheoli cofnodion cofrestru'r plant yn briodol ac yn sicrhau eu bod yn casglu'r holl wybodaeth ofynnol cyn i'r plant ddechrau mynychu.

Mae'r arweinwyr wedi meithrin cydberthnasau cadarnhaol â'r rhieni. Mae'r rhieni yn teimlo bod croeso iddynt yn y lleoliad ac maent yn gwerthfawrogi y caiff gwybodaeth ei chyfnewid yn rheolaidd. Mae'r arweinwyr yn mwynhau partneriaeth fuddiol â'r ysgol gyfagos sy'n sicrhau bod y plant yn trosglwyddo'n llwyddiannus.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 25 | Rhaid i'r unigolyn/unigolion cyfrifol sicrhau y caiff risgiau diangen i iechyd a diogelwch y plant eu nodi a'u dileu pan fydd hynny'n bosibl. | Newydd |
| 20 | Rhaid i'r unigolyn/unigolion cyfrifol sicrhau ei fod/eu bod yn gwneud darpariaeth briodol i ofalu am y plant perthnasol a'u haddysgu a'u goruchwylio. | Newydd |
| 29 | Rhaid i'r unigolyn/unigolion cyfrifol sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cael ei oruchwylio a'i arfarnu'n briodol ac yn rheolaidd. | Newydd |

| | | |
|---|---|---|
| 31 | Rhaid i'r unigolyn/unigolion cyfrifol sicrhau ei fod/eu bod yn rhoi gwybod i AGC am ddigwyddiadau a nodir yn Atodlen 4, ymlaen llaw lle y bo'n bosibl ac o fewn 14 diwrnod ar ôl iddynt ddigwydd fel bellaf. Mae hyn yn cynnwys newidiadau staff, dyddiau cau a newidiadau i'r Datganiad o Ddiben. | Newydd |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni hyn, a byddwn yn ystyried y mater hwn eto yn ystod yr arolygiad nesaf.

| **Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella** | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 30 | Rhaid i'r unigolyn/unigolion cyfrifol sicrhau bod holl gofnodion Rheoliad 30, Atodlen 3 yn cael eu cadw'n briodol, gan gynnwys cadw cofnodion cywir o bresenoldeb y staff. | Newydd |
| 27 | Rhaid i'r unigolyn/unigolion cyfrifol sicrhau bod nifer digonol o unigolion cymwys, medrus a phrofiadol yn gofalu am y plant perthnasol. | Newydd |
| 28 | Rhaid i'r unigolyn/unigolion cyfrifol sicrhau ei fod/eu bod yn casglu dogfennau boddhaol cyn cyflogaeth i ddangos addasrwydd y gweithwyr. | Newydd |

Lle byddwn yn canfod nad yw'r darparwr yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant Rheoleiddiedig ond nad oes unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn tynnu sylw at yr enghreifftiau hyn fel Argymhellion i Gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu i ymdrin â'r rhain, a byddwn yn eu hystyried yn yr arolygiad nesaf.

| **Safonau Gofynnol Cenedlaethol** | |
|---|---|
| Safon | Argymhelliad/argymhellion |
| | Ni nodwyd unrhyw argymhellion mewn perthynas â'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol yn ystod yr arolygiad hwn |

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyhoeddi hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 12/09/2024